YSGOL GYNRADD PARC Y BONT
Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB
☎ 01248 422350 pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk
Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor

3.7.21

Annwyl Rieni,

Hoffwn eich hysbysu am ychydig o weithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn yr ysgol dros y bythefnos nesaf.

****Blynyddoedd 3,4,5 & 6** - Diwrnod 'Hwyl yr Haf' – Dydd Mercher 7/7/21**

Yn lle trip ysgol eleni, rydym wedi trefni diwrnod 'Hwyl yr Haf' ar gyfer disgyblion CA2 (Bl.3-6) drwy'r dydd, dydd Mercher 7/7/21. Bydd y plant yn mwynhau diwrnod llawn hwyl gyda nifer o weithgareddau a gemau i'w mwynhau. I ginio caiff y plant fwynhau picnic, felly **bydd eich plentyn angen bocs bwyd a diod**. Os dymunent, fe all y plant ddod â phlanced picnic neu 'gadair lan-y-môr' fach efo nhw ar y diwrnod. Gallant hefyd **wisgo dillad eu hunain**. Ni fyddwn yn gofyn am gyfraniad tuag at gostau'r diwrnod.

Meithrin – Blwyddyn 6 Dydd Mercher 7/7/21

Bydd ganddom ni sypreis bach i'r ysgol gyfan ddydd Mercher nesaf – caiff y plant ddweud wrthoch chi beth oedd y sypreis! ☺

Blwyddyn 6

Byddaf yn tynnu llun o Flwyddyn 6 gyda'i gilydd wythnos nesaf pan fydd y pob un ohonynt yn bresennol yn yr ysgol. Gobeithio y gallaf wneud hyn ddydd Llun neu ddydd Mawrth. Os yn bosibl, gofynnaf yn garedig i chi sicrhau fod eich plentyn yn gwisgo'r wisg ysgol / siwmper ysgol / cardigan goch.

Mabolgampau 14/7/21

Rydym yn gobeithio y gallwn gynnal ein diwrnod mabolgampau ar ddydd Mercher 14eg o Orffennaf. Er ein bod yn byw mewn gobaith am ddiwrnod sych, byddwn yn symud y diwrnod ymlaen i ddydd Iau os fydd hi yn bwrw glaw ar y diwrnod. Yn anffodus, am resymau amlwg, ni allwn wahodd rhieni a theuluoedd i'r ysgol i wylio'r plant eleni. Yn hytrach, byddwn yn tynnu lluniau a'u rhannu ar dudalen Facebook yr ysgol – os nad oes ganddoch chi fynediad i gyfrif Facebook, cofiwch y gallwch gael mynediad i'r dudalen ar wefan yr ysgol.

Sesiynau Criced – Bl. 3-6

Bydd Blynyddoedd 3-6 yn cael sesiynau criced ar ddydd Mawrth 6/7 a dydd Mawrth 13/7.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad fel arfer.

Cofion,

Iwan Wyn Taylor
(Pennaeth)

SMARTER
IAITH
GYMRAEG

Ysgol Werdd
Aur
Gold
Green School

Eco-Sgolion

Welsh Network of Healthy School Schemes
Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru

GWOBR YSGOL
YMWYBYDDIAETH
TEG